| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Y Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD :** | **18 Ebrill 2023** |
| **TEITL :** | **Adroddiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar ymchwiliad i gŵyn yn erbyn y Cynghorydd Louise Hughes o Gyngor Gwynedd** |
| **AWDUR :** | **Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau** |
| **GWEITHREDU :** | **Penderfynu ar honiad yn erbyn y Cyng. Louise hughes o dorri Cod Ymddygiad i Aelodau Cyngor Gwynedd** |

**Cefndir**

1. Yn dilyn derbyn cwyn fod y Cynghorydd Louise Hughes, wedi torri'r cod ymddygiad i aelodau Cyngor Gwynedd, penderfynodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gynnal ymchwiliad. Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad y dylid cyfeirio'r mater at y Swyddog Monitro i'w ystyried gan y Pwyllgor Safonau.

2. Ar 13 Chwefror 2023, yn unol â gofynion Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau)(Cymru) 2001 ('y Rheoliadau'), penderfynodd y Pwyllgor y dylai'r Cynghorydd Hughes gael cyfle i gyflwyno sylwadau, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, mewn perthynas â chasgliadau'r ymchwiliad ac unrhyw honiad ei fod wedi methu, neu y gallai fod wedi methu, â chydymffurfio â chod ymddygiad Cyngor Gwynedd.

3. Mae'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â honiadau a wnaed yn erbyn cynghorwyr ac a gyfeirir at y Pwyllgor i'w' weld yn yr **Atodiad A** i'r adroddiad hwn. 6. Petai angen i'r Pwyllgor ystyried os dylid gosod cosb bydd yn rhoi sylw i ddogfen 'Canllaw ar Gosbau' a gyhoeddwyd gan Banel Dyfarnu Cymru. Ceir copi o'r ddogfen fel **Atodiad B**.

4. Mae'r Ombwdsmon wedi cynhyrchu adroddiad ar ei ymchwiliad. Bydd yr adroddiad yma'n cael ei anfon ar wahân at yr aelodau fel **Atodiad C**, ynghyd â gohebiaeth bellach oddi wrth yr aelod a'r Ombwdsmon (**Atodiad Ch**).

5. Mae gweithdrefn y Pwyllgor Safonau yn cynnwys cam i'r Swyddog Cynghori gyfarfod â'r Cadeirydd i ystyried os oes angen cymryd unrhyw gamau pellach i sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gael i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth o'r fath, penderfynwyd y byddai o fudd i'r Pwyllgor gael cadarnhad gan yr awdurdod o beth yn union yw'r sefyllfa o safbwynt mynediad aelodau i wasanaeth cyfieithu'r Cyngor. Cysylltwyd felly gyda'r Rheolwr Gwasanaethau ac Iaith, a bydd y ddogfen yn nodi'r cwestiynau a'r atebion a dderbyniwyd yn

cael ei hanfon ar wahân at yr aelodau fel **Atodiad D**.  Rhoddwyd cyfle i'r Aelod a'r Ombwdsmon gyflwyno sylwadau pellach ar y dystiolaeth yma.  Derbyniwyd sylwadau gan yr Ombwdsmon, sydd hefyd wedi eu cynnwys yn yr atodiad.

6. (Ni fydd yr atodiadau yma yn cael eu gwneud yn gyhoeddus, yn unol â darpariaethau Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016, a ddiwygiodd Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001.)

**Argymhelliad**

7. Bod y Pwyllgor ystyried yr honiad yn erbyn y Cyng. Louise Hughes . Mae'r Rheoliadau yn darparu bod rhaid i'r Pwyllgor, ar ôl ystyried unrhyw gynrychioliadau, ddod i un o'r penderfyniadau canlynol:

(a) nad oes dim tystiolaeth o unrhyw fethu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod ac felly nad oes angen cymryd camau mewn perthynas â'r materion sy'n destun yr ymchwiliad;

(b) bod yr aelod wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod ond nad oes angen cymryd dim camau mewn perthynas â'r methiant hwnnw;

(c) bod yr aelod wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod ac y dylai gael ei geryddu; neu

(ch) bod yr aelod wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod ac y dylai gael ei atal neu ei atal yn rhannol rhag bod yn aelod o'r awdurdod hwnnw am gyfnod heb fod yn fwy na chwe mis